



Colli'r Dr. Glyn O. Phillips

Dydd Sul daeth y newydd trist am farwolaeth y gwyddonydd, y Doctor Glyn O. Phillips, Radur. Rydyn ni'n cydymdeimlo â'i briod Rhiain, ei fab, Aled, a'i ferch, Elen, a'r teulu i gyd. Arloesodd "Glyn O." mewn sawl maes gwyddonol yn ystod ei yrfa gan gael ei gydnabod drosodd a throsodd am ei waith. Bu hefyd yn un o gymwynaswyr mawr trafod gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein teyrnged iddo ar dudalen 4.

(Tynnwyd y llun ar y dde ohono yn yr oedfa foreol dair blynedd union i'r wythnos hon, pan dderbyniwyd Yr Athro Phillips a'i briod Rhiain yn aelodau ym Methlehem.)



DIOLCH

Gair gan Delwyn

Grazie. Gracias. Merci. Diolch. Un o'r geiriau pwysicaf mewn unrhyw iaith? Siŵr o fod. Y gair mae'r rhan fwyaf o deithwyr yn trio dysgu yn iaith y wlad maen nhw'n ymweld â hi. Gair sy'n gallu golygu ychydig, neu gair sy'n gallu golygu popeth. Yn achos yr ychydig eiriau yma, gair sy'n golygu popeth. Diolch, am fywyd, am ddau fywyd, bywyd y Dr. Glyn O Phillips, gwr Rhiain, a bywyd Daisy Jones, mam Wyn. Ond mae'r diolch yn ddiolch ehangach, mae'n cynnwys diolch am ofal, y gofal gafodd y naill deulu a'r llall gan y ddau yn ystod eu bywydau, a'r gofal a roddwyd i'r ddau gan eu teuluoedd. Mae'n ddiolch am eiliadau ac oriau o gariad, o chwerthin a chrio, o rannu sgwrs ar aelwyd, o gwmpo mas a maddau, profiadau gwyl a gwaith, a'r cyfan yn creu carthen amryliw i'w drysori. Diolch amdanynt. Diolch hefyd am y gofal a dderbyniwyd gan y ddau mewn ysbytai, yn eu cartrefi, ac mewn cartrefi gofal, a hynny mewn wythnos pan mae ambell i arweinydd gwlad wedi anghofio pa mor ddiolchgar y dylid bod i'r gofalwyr hynny. Ac mae 'na eraill o blith ein teulu ni ym Methlehem wedi colli anwyliaid yn ystod wythnosau gofidus a dieithr y Cofid, a dwi'n gwybod eu bod nhw hefyd yn diolch am fywydau'r rhai a gollwyd a'r gofal a gawsant.

Bore Sul diwethaf roedd plant yr ysgol Sul yn trafod y Swper Olaf ac roedd hi'n bleser bod yn eu cwmni. Fe ddarllenodd Megan gerdd fach oedd yn sôn am yr Iesu a'i ddisgyblion, a ni ei ddilynwyr, fel un teulu. A dyna'n union ydyn ni, un teulu o'r hynaf i'r ieuengaf. Yn cyd dristáu ond hefyd yn cyd lawenhau wrth ddathlu bywydau llawn a gwerthfawr. Diolch amdanynt.

Delwyn



COFIO LLIFOGYDD CHWEFROR

Mae pum mis wedi mynd heibio ers i Storom Dennis achosi llifogydd yn Ffynnon Taf. Un o'r teuluoedd gafodd ddifrod mawr oedd ein cyd-aelodau Kay a David Clement, fel gwelwch o'r llun ar y chwith.

Ar dudalennau 6 & 7, maen nhw'n adrodd hanes y noson ac am yr hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw wedi hynny.

Pen-blwydd Efail Isaf

Eleni, mae Capel y Tabernacl, Efail Isaf, yn dathlu 150 mlynedd o addoli yn yr adeilad presennol. Cynhaliwyd Oedfa Ddathlu ddydd Sul diwethaf, ac i gyd-fynd â'r dathliadau, cyhoeddwyd y llyfryn cynhwysfawr 36 tudalen welwch chi ar y dde. Cliciwch ar y ddolen isod i'w weld a'i ddarllen i gyd – mae'n gofnod rhyfeddol:

<http://www.tabernacl.org/wp-content/uploads/2020/07/Fersiwn-Derfynol-Atodiad-Dathlur-150.pdf>

Fel eglwys, mae'n perthynas a'r Tabernacl yn un glos a chynnes a gwyddom y byddwch am ddymuno llwyddiant a pharhad yn eu haddoliad, a dymuniadau gorau iddyn nhw yn eu dathliadau, ynghanol cyfyngiadau'r "Gofid mawr". Mae ein hysgrifennydd, Rhodri-Gwynn Jones, wedi anfon neges ar ran Bethlehem i'w llongyfarch yn wresog, gan ddymuno pob bendith a chymorth wrth wynebu sialensiau'r 150 mlynedd nesaf! *Mae hi bron yr adeg o'r flwyddyn pan oedden ni'n cyfnewid Suliau dros gyfnod yr haf gydag aelodau y Tabernacl. Bydd yn braf unwaith yn rhagor i gael eu cwmni wrth gyd-addoli a chyd-gymdeithasu pan fydd cyfnod y cyfyngiadau mwyaf wedi cilio.*



Yr Ysgol Sul

Heulwen Jones



Wythnos hon roedd yn hyfryd cael cwmni Delwyn yn ein sesiwn Ysgol Sul gan ein bod wedi gweld ei eisiau yn ddiweddar. Ymatebodd y plant yn wych, fel arfer, a cawsom hanes eu wythnos gynta nôl yn yr ysgol. Buom yn sôn am y Swper Olaf a'r dasg i'r plant oedd meddwl pa fwydydd eraill, ar wahân i'r bara a'r gwin, fydde wedi bod ar y bwrdd ac yna tynnu llun ohonynt. Darllenodd Megan gerdd 'Y Swper Olaf' (isod) a dywedodd Delwyn wrth y plant pa mor bwysig yw pob un ohonynt nhw yn nheulu Bethlehem. Fe geisiof wyllo fideo bach gan Martyn Geraint yn sôn am y swper olaf a hanes y cymun ond yn anffodus aeth rhywbeth o'i le. Gallwch ei wyllo yma: <https://youtu.be/Fp4ltuQcKkg>

Y Swper Olaf

'Dewch at y bwrdd,
gadewch i ni rannu,
dewch at y bwrdd,'
meddai Iesu.

'Dewch at y bwrdd,
dewch i weddio,
dewch at y bwrdd,
dewch i gofio.

'Cofio dysgu,
byw fel teulu,
cofio rhannu,
cofio caru,
a chofio amdanaf,'
meddai Iesu.

Ymunwch â ni yn yr Ysgol Sul

Cofiwch bod croeso i unrhyw un alw i mewn i'n gweld ni yn yr Ysgol Sul am 10.30. Mae'r manylion cysylltu yr un fath bob tro:

<https://us04web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNdD3M3ZCUT09>

ID: 714 6634 3537

Cyfrinair: Bethlehem

heulwen@btinternet.com

07779 360614



*“Tu hwnt i’r byd a’r bywyd sy’n gyfarwydd i ni
Mae Rhywun yn ein gwarchod.
Nid yw o fewn ein dirnadaeth i’w adnabod,
Ond unwaith, cefais gipolwg, a gwelais
Mai ni yw Ei gysgod
A’n cysgod ni
Yw’r byd.”*

Aralleiriad o ddarn o farddoniaeth gan Rumi (Jalaludin Mohamad), bardd a oedd yn byw yn ninas Balkh ym Mhersia dros 700 mlynedd yn ôl. Honnir mai ef yw’r bardd cyfriniol mwyaf erioed, a bod ei neges unigryw o gariad yn apelio’n uniongyrchol at y galon, ac yn codi uwchlaw ffiniau iaith ac amser.

Mae ei eiriau yn gallu achosi penbleth, tra ar yr un pryd yn treiddio, cysuro a chodi calon. Mae’n cyflwyno cariad na ellir ei gyrraedd heb yn gyntaf fyw tu hwnt i ffiniau dealltwriaeth a rhaniadau credoau.

Pan oedd yn 37 mlwydd oed fe gyfarfu ag un a ddaeth yn gyfaill mynwesol ac yn ysbrydoliaeth iddo weddill ei oes. ‘Roedd Shams yn ŵr yn ei chwedegau, yn drwbadŵr o gyfrinydd, blêr ei olwg, garw ei ffordd, a digymrodedd (adlais o stori gyfarwydd yn y Testament Newydd tybed?). “Roedd wedi bod yn chwilio’n daer am rhywun i rannu o’i ddoethineb ac yn un y gallai ymddiried ynddo ei gyfrinedd. Fe ddarganfu hynny yn Rumi, ac fe ganfu Rumi yn Shams ymgorfforiad o brydferthwch Duw, ac ynddo fe welodd wyneb Duw.

Wyneb Iesu Grist oedd dan sylw yn y cyfweiliad ar Radio 4 rhyw wythnos neu ddwy yn ôl, a hynny yn sgil y drafodaeth ar hiliaeth a chofebau, yn dilyn lladd George Floyd yn yr Unol Daleithiau. Archesgob Caergrawnt, Justin Welby, oedd yn cael ei holi, ac yn ôl yr ymateb, fe gorddodd y dyfroedd trwy sôn y dylid ail-asesu’r delweddau a’r portreadau o’r Iesu fel dyn gwyn o fewn yr eglwys. “Wedi’r cyfan” meddai “pan af i ymweld ag eglwysi mewn gwahanol rannau o’r byd, nid Iesu gwyn a welaf yno ond Iesu du, Iesu Chineaid, Iesu’r Dwyrain Canol – sef y mwyaf gwreiddiol o’r cyfan...Mae’r Iesu yn cael ei gynrychioli mewn cynifer o ffyrdd gwahanol ag sydd o ddiwylliannau, o ieithoedd ac o ddirnadaeth ohono.”

[Parhaodd y drafodaeth honno yng nghylchgrawn y “Sunday Times” ddydd Sul y 5ed o Orffennaf, mewn cyfweiliad gyda darpar Archesgob Caerefrog, Stephen Cottrell, (olynydd y lliwgar John Sentamu), dan y pennawd “Jesus was a black man...The church leadership is too white”.

Ym marn yr Archesgob newydd, a fydd yn cael ei sefydlu yn ei swydd ar ddydd Iau y 9fed o Orffennaf, “...nid ydwyf mewn unrhyw amheuaeth na fyddai’r Iesu wedi ymuno yn y protestiadau [“Black Lives Matter”]. Gwr croenddu oedd yr Iesu, wedi ei eni i ganol grŵp a erlidiwyd mewn gwlad dan oresgyniad.”]

Bum i yn ffodus i gael crwydro manau eraill o’r byd a phrofi rhai o’r gwahaniaethau rheini y soniodd Archesgob Caergaint amdanynt nhw - cefais gip ar lyfrau’r Maori yn Seland Newydd yn dweud hanes y creu yn ôl eu diwylliant eu hunain. Yr un modd hefyd bum yng nghwmni’r Navaho a’r Lakota yn yr Unol Daleithiau, yn profi’r parch roeddn nhw yn ei roi i’r Fam Ddaear, a’i gofal am y ddog, yr heddiw a’r yfory.

Ac er na fûm ar ymweliad a Botswana, fe drawais ar y gerdd isod, a gynhwysir mewn llyfr o’r enw “A Book of Uncommon Prayer”, sy’n adlewyrchu geiriau Salm 103 adnod 15 - 16 - “Mae bywyd dynol fel glaswellt – mae fel blodyn gwyllt, yn tyfu dros dro; pan mae’r gwynt yn dod heibio, mae wedi mynd; lle ’roedd gynt, does dim sôn amdano” [Fersiwn Beibl.net]:-

*“Ar ddiwrnod ein marw daw’r gwynt i ddileu ein ôl troed
Cyfyd y gwynt y llwch i orchuddio’r olion a wnaethom tra’n cerdded
Heblaw hynny byddai’n ymddangos ein bod o hyd yn fyw
Felly y gwynt yw’r Un sy’n dod i ddileu’n ôl troed.”*

Ond am y gair olaf, dyma fi’n troi ‘nol at Rumi – a’r ddiddordeb, gyda llaw, wedi ei gyniwair mewn llyfr a brynais ar ymweliad ag Istanbul – yno yn y maes awyr, tra’n disgwyl am yr awyren i’n cyrchu ‘nol adref, darllenais gyflwyniad i’w farddoniaeth, a dwi ddim wedi edrych ‘nol ers hynny!

*“Paid edrych yn ôl fy ffrind
Nid oes unrhywun yn gwybod sut y crëwyd y byd.
Paid ag ofni’r dyfodol, nid oes dim yn para am byth,
Ond os wyt yn preswyllo yn y gorffennol neu’r dyfodol
Fe gollir’r foment.”*


Mae'r sefydliadau academiaidd a gwyddonol ddyfarnodd anrhydeddau i'r diweddar Dr Glyn O Phillips yn dyrfa niferus. Roedd y gwyddonydd amryddawn o Rosllannerchrugog, oedd hefyd mor wylaidd a diymhongar, bob amser yn dweud mai ei athro cemeg yn Ysgol Ramadeg Rhiwabon sbardunodd ei ddiddordeb mewn gwyddoniaeth. Wedi graddio (a chanfod gwraig) yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, cafodd gymrodoriaeth i ymuno â thîm o wyddonwyr Awdurdod Ynni Atomig Harwell Roedd hyn mewn cyfnod wedi'r ail ryfel byd a'r bom atomig, pan oedd o a'i gydweithwyr, dan Syr John Cockroft, yn awyddus i weld ynni niwclear yn cael ei harnessu i ddibenion heddychlon. Bu'n flaengar yn y maes hwnnw ar hyd ei oes.

Yna ymlaen fel uwch ddarlithydd i Goleg y Brifysgol, Caerdydd, ym 1954 ac wedi hynny'n Athro Cemeg ym Mhrifysgol Salford, Manceinion. Cyfnod wedi hynny yn sefydlu prifysgol newydd sbon yn Benin, Nigeria, a fo oedd yr is-ganghellor cyntaf. Wedi dychwelyd, yn 1975 dyna uno nifer o golegau yn ardal ei fagwraeth, i fod yn Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru, sydd bellach yn Brifysgol Glyndwr, Wrecsam.

Pan ddaeth adeg ymdeol, doedd dim segura i fod. Bu'n crwydro'r byd ar ran yr Asiantaeth Ynni Niwclear, gan arwain cydweithrediad rhyngwladol i sefydlu trefn cyfnewid meinwe i drin clwyfau ac esgyrn. Bu cwmni roedd o wedi ei sefydlu a'i gadeirio yn ariannu ymchwil cyson ym Mhrifysgol Glyndwr yn y maes hwnnw. Mae'r un adran hefyd yn cydweithio ag arbenigwyr yn Tsieina a Japan.

Cyhoeddodd ganlyniadau ei waith mewn degau lawer o gyhoeddiadau gwyddonol a chyfrolau, a thros 30 mlynedd, o 1963 ymlaen, ynghanol ei brysurdeb academiaidd a rhyngwladol, bu hefyd yn Olygydd "Y Gwyddonydd" gan gyhoeddi erthyglau gwyddonwyr o Gymry Cymraeg ar bynciau nad oedden nhw erioed wedi eu trafod mewn print cyn hynny yn yr iaith. Bu hefyd ar nifer o bwyllgorau a chyrrff rheoli'r prifysgolion yng Nghymru yn ystod ei yrfa.

Dyfarnwyd iddo ddoethuriaethau a chymrodoriaethau rif y gwllith – ond ar un o raglenni Dewi Llwyd roedd yn trysori'r ffaith mai iddo fo, yng Nghasnewydd yn 2004, y dyfarnwyd Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg gyntaf yr



Eisteddfod Genedlaethol. Ymhyfrydai hefyd iddo gael ei ethol yn flaenor yn ei gapel yn Yr Wyddgrug. Ar yr un rhaglen, wrth drafod a oedd ei wyddoniaeth a'i Gristnogaeth yn croesdynnu, dywedodd fod gwyddoniaeth yn rhoi agwedd i ni o'r datguddiad o Dduw, "ond nid yn ddatguddiad cyflawn wrth gwrs". Dyfynnodd y gwyddonydd Charles Coulson, ddywedodd fod hyn "fel edrych ar fynydd o'r ddwy ochr, nad ydy'r olygfa yr un fath, ond yr un mynydd ydy o. Does dim unrhyw fath o rwyg rhwng gwyddoniaeth a chrefydd."

Yn lleol, wedi i Rhiain ac yntau ddod i Radur, ymaelododd y ddau ym Methlehem – union dair blynedd i'r wythnos hon. Fel y tystia Marian Evans, roedd bod yn ei gwmni yn bleser pur:

"Daeth John a minnau i'w nabad o a Rhiain yn well pan ymunon ni a chylch bychan o ddarllenwyr, sef Emyr a Cath Edwards, Eirlys Jones a Rhiain a Glyn. Byddem yn cwrdd yn nhai ein gilydd i gael swper a thrafod brwd o dan arweiniad Emyr, ac roedd wrth ei fodd yn gwrando'n dawel arnon ni'n traethu!

Bu'n hynod hael i unrhyw ymgyrch codi arian megis y Steddfod, ac yn mwynhau unrhyw gyngerdd neu noson gymdeithasol.

Pan ddaeth yn aelod ym Methlehem, pleser oedd gwrando ar ei lais tenor hyfryd, ac roedd yn mwynhau nosweithiau'r Dwrllyn hefyd. Roedd yn dawel ddiolchgar am unrhyw gymwynas."

Bu un neu ddau yn holi dros yr wythnosau dwetha sut oedd Canolfan y Drindod, sef dewis aelodau Bethlehem ar gyfer apêl 2019-21 yn ymdopi yn ystod y cyfnod anodd hwn. Fel y gwelwch o'r cylchlythyr isod oddi wrth Fflur Angharad, maen nhw'n brysur tu hwnt ac yn dal i lwyddo i gynnig help llaw (a chariad di-amod) i'r ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd wedi gorfod ymadael a'u gwledydd genedigol. Mae yna bob amser ffordd i helpu cymydog, o ble bynnag y daw ef neu hi, beth bynnag yw'r amgylchiadau. Ac mae Fflur am gymryd y cyfle i diolch i bobol Bethlehem am bob cefnogaeth yn ariannol ac fel arall mae'r Ganolfan wedi ei dderbyn.



Yma yng Nghanolfan y Drindod, mae grwpiau, gwirfoddolwyr a gweithwyr wedi parhau i weithio'n angerddol tu ôl i ddrysau caeedig. Yn ogystal â chefnogi unigolion i ganfod llety, mae gwirfoddolwyr Space4U wedi ailgychwyn eu Banc Bwyd a'u Banc Dillad dros yr wythnosau diwethaf, gan baratoi pecynnau bwyd a dillad yn y ganolfan a'u danfon at ddrysau'r rhai mwyaf anghenus. Maen nhw hefyd wedi cychwyn sesiynau galw mewn ar Zoom yn wythnosol, fel ffordd i gyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ynysu cymdeithasol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae Grwp STAR (myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd) wedi symud eu sesiynau sgysiol Saesneg i ffoaduriaid ar-lein, ac hefyd wedi dechrau clwb ffilm sy'n gyfle i drafod a dysgu.

Mae Grŵp Rhieni a Phlant y Drindod (Cyngor Ffoaduriaid Cymru) wedi bod yn cefnogi eu teuluoedd â phlant oed ysgol i gael mynediad at Brydau Ysgol Am Ddim. Gydag ychydig neu ddim Saesneg, a heb gyfrifon banc, nid oedd rhai teuluoedd yn gallu derbyn talebau a ddarparwyd gan y Cyngor. Mae Meryl, arweinydd y grŵp, hefyd wedi cefnogi ei theuluoedd i gael mynediad i'r rhyngwyd i sicrhau bod plant oed ysgol wedi gallu parhau â'u gwaith ysgol. Heb fynediad i'r rhyngwyd yn eu llety, a heb unrhyw arian i brynu pecynnau data, roedd y plant hyn mewn perygl o fynd ar ei hôl hi o ran gwaith ysgol, ond diolch byth, gyda chefnogaeth, mae ganddyn nhw un rhwystr llai i'w

hwynebu nawr.

Mae Louise sy'n rhedeg ein Grwp Chwarae i Deuluoedd (Displaced People In Action) wedi bod yn creu pecynnau gweithgaredd i gefnogi ei theuluoedd i gadw'n brysur yn ystod y cyfnod cloi. Mae Grwp Celf Aurora Trinity wedi creu a darparu pecynnau celf syml, gan gynnwys brodwaith a pheccynnau gwnïo er mwyn i aelodau eu grŵp gadw'n greadigol. Maen nhw hefyd wedi ail-ddechrau eu grwp wythnosol dros Zoom, er mwyn cadw cysylltiad a rhannu syniadau creadigol.

Rydyn ni mor falch o'n holl weithwyr a gwirfoddolwyr yng Nghanolfan y Drindod - rydyn ni wedi dechrau postio #DyddlauDiolchgar yn wythnosol ar ein gwefannau cymdeithasol, sy'n arddangos aelod gwerthfawr gwahanol o Ganolfan y Drindod bob wythnos.

Ewch draw i'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol i ddal i fyny! @CdfTrinity facebook.com/TrinityCentreCDF

Roedd Wythnos Ffoaduriaid (Mehefin 15-21) yn wahanol iawn eleni. Fel arfer, rydym yn croesawu'r gymuned leol trwy ein drysau i ymgysylltu â'r gymuned ffoaduriaid gyda phrynhawn agored a noson ffilm. Eleni, fodd bynnag, chwiliais am ffyrdd newydd y gallwn ni i gyd gefnogi'r gymuned ffoaduriaid a cheiswyr lloches o'n cartrefi. Creais Brosiect Coed Canolfan y Drindod. Gyda'r templed coeden roeddwn wedi ei greu, roeddwn i eisiau i deuluoedd ledled Caerdydd ei addurno gyda dail, gan ddefnyddio'r neges "Mae pob deilen yn unigryw ac mae ganddi ei stori ei hun, ond mae'r holl ddail yn dod ynghyd i wneud coed gwyech" i'w hysbrydoli. Derbyniais dros 50 o goed a'u rhannu ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol trwy gydol



Wythnos Ffoaduriaid. Roedd pob coeden yn croesawu ac yn cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i Gaerdydd a thu hwnt. Ewch i'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol i weld ein #CoedwigGroeso ac i weld pob coeden a wnaed gyda chariad a chefnogaeth i ffoaduriaid.



Yn yr oriau bach ar fore Sul 16 Chwefror, geso i'n ddihuno lan gyda phwno mawr ar y drws ffrynt - rhywun yn amlwg mewn pryder a brys. Yn teimlo'n anesmwyth iawn agores i'r drws i Matt, y dyn drws nesa, gyda'i wynt yn ei ddwrn yn torri'r newyddion bythgofiadwy bod yr afon wedi gor-lifo mewn i'r tai.

"Are you ok?" gofynnodd ac yn hanner cwsg a d'un, es lawr staer i weld beth oedd y sefyllfa. Dilynodd Matt fi lawr a gwaeddi "Be careful when you open the door!"

Roedd fy nhraed mewn dŵr wrth gyrraedd gwaelod staer, ond heb 'styried agores i'r drws ac es i yn syth lan i'm mhengliniau mewn dwr. Mowredd Mawr "Whaaaaaaaaaaaaaaaa!" a sgrechtes i mas môr uchel am y fath sioc am bedwar o'r gloch y bore!!! Ffili meddwl yn iawn beth yn y byd oedd yn digwydd, a ffindo'n hunan yn straffaglu yn y dŵr ac yn llusgo'n hunan tuag at y gegin. Roedd Matt wrth fy sodle ac yn cofio fe yn gweiddi arnai "get your keys, get your purse, get this, get that, now get out!!" Roedd Matt yn

gwybod yn gwmws beth oedd y sefyllfa a 'rwy'n ddiolchgar iawn iddo fe am fy arwain yn gall drwy'r hunllef ma. Roedd y dŵr yn codi fel o'n i'n siarad. Popeth yn dywyll bitsh - roedd y dŵr wedi chwythu'r trydan. Cofio teimlo'n ffordd nôl trwy'r dŵr yn fy slippers, pyjamas, dressing gown, a troi am y staer i fynd lan lofft. Wedi cal eiliadau i brosesi'r sefyllfa, cofio teimlo dyfnder trwm o anobaith llwyr wrth troi'n nghefn ar ein cegin a'r stafell fyw, yn gwybod doedd dim yw dim yn y byd gallen i wneud ond clirio mas o'r ffordd.


Lan lofft a mewn i'r lolfa, aeth Matt nôl i'w dechnoleg "Back later, keep you posted". Roedd David erbyn hyn wedi clywed yr holl ffwdan ac yn ishte'n gyffwrddus iawn ar y sofffa. Eisteddes i wrth ei ochor, heb ddweud dim. O'n i ddim yn teimlo'n barod i dderbyn beth oedd yn mynd mla'n lawr llawr, a ffili yn llwyr dod o hyd i'r geiriau bydde gallu disgrifio llun o'r llanast oedd lawr llawr.

Edrychon ni ar ein gilydd ac mewn sbel fach wetes i wrth David, "Wel dyma hyfryd fan, a fi'n credu dyna beth ma' rhaid i ni neud". A dyna yn gwmws beth nethon ni - mewn i weddi fach fer o rhyw 5/6 munud! Ar ôl teimlo mach yn well, dechre casglu meddyliau i wynebu pa bynnag ffordd bydde ein llwybr bywyd ni yn ei gymryd o hyn ymlaen.

Roedd y glaw yn clatsho'n ddi-ben-draw tu fas a gofies i bo fi yn socan potsh. Wedi llwyr anghofio bo fy slippers bach twym neis cysurus, pj's, a dressing gown pinc fflyffi Luned, nawr mor anghysurus. Newid mewn i ddillad sych a nôl mewn i'r lolfa, beth allen ni neud nawr? David yn gofyn am ddishgled o de – "Ti n jocan" medde fi, ma'r tecyl (a popeth arall) yn y Taf! Erbyn hyn roedd hi'n tynnu am 5 o'r gloch a benderfynes i fynd mas i chwilio am Matt a hefyd i gal mwy o fanylion a gwybodaeth am y sefyllfa. Roedd y glaw yn dal i ddod lawr yn drwm a rhagolygon y tywydd yn llawn pryder. Roedd y posibiladau bydde pawb yn y stryd yn gorfod symud mas achos roedd lefel y llif yn dal i godi.

Bore tywyll diflas tu hwnt, pobol mas o'u tai, golau tai ym mhobman i weld a llawer o 'conspiracy theories' yn mynd o un i'r llall. Fel yn y byd galle'r gyflafan hyn ddigwydd?

Wel do, fe ballodd y glaw ac fe wawriodd y dydd. Ac yng ngolau ddydd y drychineb i weld yn eglur o flaen ein llygaid. Roedd y dŵr wedi mynd hanner ffordd lan y tyle wrth ochor y stryd ac felly yn erbyn llif naturiol yr afon. Doedd dim syniad 'da ni beth oedd cyflwr yn y tŷ lawr llawr, na dim awydd chwaith i ffindo mas. Erbyn hyn roedd pobol y pentref mas yn eu ymbaréls, dillad glaw, tynnu llunie, ceir yn stopio, pawb mewn sioc, siarad a sgwrsio. Neb mewn cof o weld y fath drychineb. Yn ystod y bore agorwyd neuadd y pentre a chynnig lluniaeth, ysgafn te a choffi i'r trigolion oedd wedi'u heffeithio.



Ein sied sydd ar y gongl uchaf chwith a dau ganŵ coch John drws nesa. Ysgubwyd y sied annwyl i ardd cymydog 5 tŷ mhellach lawr ac fe'i gwelwyd ar newyddion Cymru y BBC ar nos Lun 17 Chwefror.

(Parhad ar y dudalen nesaf)

Yn y prynhawn, es i a David draw i Asda i brynu anghenion bethe, bwyd parod, llestri, tecyl, toaster a.y.y.b. Daeth y glaw mawr nôl o bryd i'w bryd a phawb ar bigau drain am fod y rhagolygon mor wael. Lefel y dŵr yn para yn uchel. Neuadd y pentref nawr yn llawn prysurdeb. Cymaint o fwyd yn cael ei baratoi. Cymaint o fobol yn helpu. 'First response' pobol wedi dod mewn i'r pentref i gynnig cymorth. Cofio cwrdda pobol diarth yn helpu fi symud y delyn i dŷ diogel ochor arall yr hewl. Cymaint o help o bobman, 'ffrindiau' doeddwn i erioed wedi cyfarfod o'r blaen. Buodd y fath ymateb hyn yn galonogol iawn i ni, a cofio meddwl ar y pryd, bydd popeth yn 'OK' rili, achos ma pobol ymbothdy sy'n deall ein sefyllfa yn iawn, ac yn gallu arwain ni ymlaen gyda hyder a mach o hwy!!!

Drannoeth, bore Llun, cofio dihuono lan gyda gwynt drwg y llif yn rhedeg drwy'r tŷ. Cofio a meddwl pa fath o lanast roedd yn ein haros lawr llawr, a fel yn y byd roeddwn ni yn mynd i drefnu'r clirio. Mewn amser daeth cnoc ar y drws ffrynt ac yn aros tu fas roedd dwy fenyw y pentref yn gofyn amdano ni a cynnig helpu. A dyna pryd ges i ddigon o hyder i fynd lawr llawr i ddarganfod y sefyllfa, gyda'r ddwy ffrind newydd yn dilyn. Ac am weledigaeth !!!!! Yn sgweltshan yn y llacs a'r baw dan draed, weles i'r bin bara (fy mam) yn y stafell ymolchi. Yn amlwg wedi bobian o'r man pella'r gegin a rownd y cornel i lanio yn y bathrwm. Yn y stafell fyw roedd y sofffa fawr ar ben y ford bwyta, cadeiriau ben i waered, dŵr dal ar y llawr. Yn y gegin roedd y 'fridge/freezer' yn horisontal dros y ford brecwast, ac yn y portsh wrth ddod mewn i'r tŷ, y freezer fawr llawn bwyd ar ei hochor a'r plwg wedi chwythu bant o'r wal. Wrth agor rhai o'r cwpwrddde roedd popeth yn llawn dŵr brwnt a baw.



ben y 'worktop', sil ffenestri'r gegin, mewn yn y microdon, a llinell y dwr i weld ar un wal yn rhoi amcan o'r lefel roedd y llif wedi cyrraedd. Roedd y fath olygfa yn wir dorcalonnus. Cymaint o fwyd. Cymaint o fes. Cymaint o bopeth gwael diwerth.

Wrth edrych mas o ffenest y gegin, cofio gweld hwyaid bach yr afon yn oifad rownd y golfen yn yr ardd, ac yn cwac cwacian eu ffordd yn hapus eu byd! Rhywbeth mor bert o fywyd natur i godi calon.

Whap mewn amser byr daeth y cyfnod clo i rhoi pen a mwdwl ar bopeth. Mae gen i a David ddyled mawr i'm ffrindiau oll sy' wedi bod (ac yn dal i fod) yn gymaint o gefnogaeth a chymorth. Ffrindiau'r pentref, o Radur, i Rhiwbeina a Llysfaen, o Bentyrch i Creigiau a St. Ffagan. O deulu, a hen ffrindiau ysgol, Cwmtawe i hen ffrindiau ysgol feithrin a Glantaf yng Nghaerdydd. Mae'r golch wedi neud, mae fridge a microdon o Bentyrch, 'slow cwcer' a dau 'hot

plate' sosbenni a llestri o neuadd y pentref. Wedi derbyn llu o alwadau ffôn, negeseuon testun, e-byst, a chardiau, prydiau bwyd, tecawês, danteithion a teisennau! Mae cefnogaeth y plant Lowri, Luned a Bethan wedi bod yn amhrisiadwy. Teimlo'n ffodus iawn.

Wel erbyn hyn, ma 'llawr y llif' wedi sychu mas. Mae'r cwmni insiwrans yn wych ac wedi cymryd y baich drosto yn gyfan gwbl. Nawr yn aros i'r adeiladwyr ddechre ar y gwaith, a gyda gobaith bydd popeth nôl yn ei le cyn yr Hydref. Dyna'r gobaith, a dyna'r theori!

Dyna hefyd yw'n stori mor belled. " 'Da ni yma o hyd!' Wedi ca'l profiad annisgwyl iawn. Wedi cwrdda llawer o ffrindiau newydd, wedi dysgu cymaint. Popeth werth chweil! Cytuno gyda mam Delwyn Siôn "Ma' wastad rhywun yn waeth." Mae'r cwpan yn hanner llawn.

Gyda diolch i chi gyd ym Methlehem - fe 'gewn ni gwrdd' cyn 'Dolig gobitho!!!

David a Kay Clement.

“Pam fod y llwyn rhosod bach yn fwy deniadol na'r llwyn rhosod mawr?” Wythnos yn ddiweddarach, dwi'n dal i feddwl...

Mae'n boeth... yn rhy boeth i symud. Dwi'n eistedd dan ymbarél yn yr ardd. Tra mod i wrthi'n cuddio yn y cysgod fe droes fy sylw at y lampau 'solar' sydd wedi'u gosod o amgylch yr ardd yn ddiweddar. Lampau



bach digon syml yw'r rhain sy'n defnyddio pelydrau'r haul i wefru batri bychan sydd, yn ei dro, yn goleuo bwlb. Unwaith y bydd hi wedi tywyllu bydd y lampau bach yn “deffro” ac yn taflu goleuni melyn i gilfachau a chorneli'r ardd. “Bydded goleuni”, fel petai.

Yr unig gamp yw gosod y lampau yn y lleoliad mwyaf addas i ddal pelydrau'r haul yn ystod y dydd. Nid yn rhy agos at gysgod y ffens, nid o dan gysgod canghennau y goeden ac nid yn y gornel ar bwys garej drws nesaf. Rhaid i'r lampau beidio cael eu heidio'n rhy agos at ei gilydd a rhaid i'r golau gynnig dyfnder

i'r llygad yn y nos.

A dyna lle bum i'n myfyrio trwy'r prynhawn yn gwyllo cysgodion duon y coed a'r dail yn cropian yn araf fel pryfed ar draws y lawnt, dros yr eiddew yn y clawdd, ar draws cerrig llachar y patio a heibio i'r rhosyn bach a'r rhosyn mawr fel ei gilydd. Ac wrth i fi eistedd yn llonydd, yn gwyllo taith lwybreiddiol, unigryw bysedd y cysgodion, fe ddes yn ymwybodol iawn fod y byd yn chwyrlïo ar gyflymder anhygoel ar ei echel o amgylch yr haul. Daeth tystiolaeth o symudiadau planedau Cysawd yr Haul yn fyw o flaen fy llygaid! Bydd y cysgodion yn perfformio y ddawns araf a gosgeiddig hon bob dydd, a phob dydd fymryn yn wahanol wrth i daith yr haul esgyn a gostwng yn y ffurfafen, a hynny trwy'r flwyddyn gron. A dyma'r tro cyntaf i fi dalu sylw!



O dan fy nhraed mae morgrug yn gwibio yma ag acw yn dilyn rhyw resymeg sydd ymhell y tu hwnt i fy nealltwriaeth i. Dydw i ddim yn hoff o forgrug ar y cyfan ond, heddiw, dwi'n profi rhyw deimlad hynod o frawdgarwch heddychlon annisgwyl tuag atynt. Dyma nhw'n rhuthro o le i le, gyda rhyw bwrpas prysur, ac yn hollol anymwybodol o ddawns dawel y cysgodion. Rwy'n sylweddoli mai dyma fel dwi wedi byw fy mywyd hefyd o bryd i'w gilydd. Pen lawr yn rhuthro o le i le heb aros yn llonydd i werthfawrogi natur y bydysawd ar waith. “Dwi'n edrych ar y morgrugyn ac mae'r morgrugyn yn edrych arna i”... a dyna addasu “koan” Siapaneaidd arall i chi.

Ar ôl ystyried y “koan” hwnnw am sbel daeth adnod o lyfr y Diarhebion i gof - “Ti'r diogyn, edrych ar y morgrugyn; astudia'i ffyrdd a dysga sut i fod yn ddoeth”. Wel, dyna'r un wers o ddau gyfeiriad hollol wahanol! Mae'r “cyfnod cloi” yma yn dechre teimlo'n hir. Bu'n gyfnod rhwystredig, pryderus, undonog a diflas ar brydiau. Dwi wedi gweld â fy llygaid fy hun pa mor galed mae athrawon yn gweithio a dwi'n ymwybodol nad yw gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd erioed wedi gweld cyfnod tebyg. Yn bersonol mae e wedi rhoi cyfle, o bryd i'w gilydd, i eistedd lawr a meddwl am bethau na chawn gyfle i'w hystyried yng nghanol prysurdeb bywyd “normal” - boed rheini yn goed rhosod mawr neu'n rhai bach, yn blanedau neu'n forgrug - y pethau mawr a'r pethau bychain!

**Awydd anfon cyfraniad
i'r rhifyn nesaf o
"Gair bach Bethlehem"?**

Ydych chi wedi darganfod hen lun, hen lyfr neu drysor? Oes ganddoch chi bwt o stori neu rigwm neu gerdd hir?

Ewch ati nawr – ac anfon gair erbyn Gorffennaf 15 at: tycnau@aol.com Diolch i bawb.



Fuoch chi'n gwyllo'r newyddion yn ddiweddar? Wel do, hyd at syrffed mae'n siŵr, ac wedyn cael y cyfle amheuthun i ddilyn cynadleddau newyddion dyddiol llywodraeth Llundain, a gwaredu! Ac yn y cyfarfodydd rhithiol hynny (ymhob ystyr y gair), clywed am nifer y marwolaethau Covid a fu. Petai'r adroddiad ar radio, yna rhif syml fyddai hyn, ond ar deledu rhaid cael graff i gyfleu'r wybodaeth, a dyma fel mae pethau.

Nawr pwrpas graff yw taflu golau ar y berthynas rhwng dau fesur, yn yr achos yma, nifer y marwolaethau

a'r dyddiad. Felly caed graff bywiog, megis hwn (**ar y dde**) am y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio data Gov UK o'r we i ddangos y berthynas. Natur y graff yw bod cwrs y llinell yn amrywio'n gyson ac o ganlyniad mae'r nifer yn mynd i fyny ac i lawr o'r naill ddiwrnod i'r llall.

Mae graff o'r math yma yn gyfarwydd i wyddonwyr, mae'n dangos y berthynas sylfaenol ond mae honno'n cael ei boddi gan *sŵn* o ryw fath neu'i gilydd. Wn i ddim pam mai



'noise' yw'r term a ddefnyddir ond mae'n gyfarwydd i bawb sy'n cynnal arbrofion. Mae 'sŵn trydanol' yn gyffredin iawn gan fod mesuryddion yn aml yn ddyfeisiau trydanol a phan fyddant yn cael eu defnyddio mewn labordy ble mae offer trydanol arall yn gweithredu, gall *sŵn* trydanol yr offer foddî'r nodyn sy'n cael ei fesur. Felly mae'n hanfodol gwybod y gwahaniaeth rhwng y mesuriad a'r *sŵn*.


Yn yr achos yma mae'n ddigon hawdd gweld patrwm nad annisgwyl yn y *sŵn* gan ei fod yn wythnosol. Mae'n go annhebyg bod y feirws yn ymlacio dros y penwythnos ac felly peth ffôl yw rhoi arwyddocâd i'r mesur dyddiol. O gyflwyno'r data fesul wythnos mae'r *sŵn* yn diflannu a gallwn weld beth sy'n digwydd, go iawn.

Pam felly nad yw'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno fel hyn? (**ar y dde**) Mae'n anodd deall. Byddai'n llawer haws i'r gwleidyddion amddiffyn y graff wythnosol na'r un dyddiol a dim ond y wybodaeth wythnosol sy'n dangos beth sy'n digwydd. Ydy'r awydd i fod yn *sensational* yn bwysicach na chyfleu'r wybodaeth go iawn?

Ac a yw ein chwant ni am newyddion yn gyrru'r broses? Ydym ni mor awyddus i weld y mesur yn cwmpo nes ein bod yn gwrando ar y *sŵn*? Digon i'r diwrnod ei drafferth ei hun, a bydded i ninne chwilio am y wybodaeth, nid gwrando ar y *sŵn*.

Nawr mae Bois Boris hefyd yn hoff o'r gair *exponential*, ond stori arall yw honno! Hei, mae'n un o'r gloch... angen gweld y newyddion arna'i nawr!





*Yn dilyn yr eitem oedd yn holi am y 'poster wyneb clown' mewn rhifyn blaenorol o'r Gair Bach mi ges i 'tip-off' gan un o'n cyd-aelodau oedd wedi adnabod y llawysgrifen. Felly mi es i holi **Alwyn Harding Jones** am yr hanes (ar-lein, wrth gwrs, rhag torri'r amodau 'cadw o fewn hyd braich!')*

IR: Y flwyddyn ydy' 1980, ac mae'r elw at gronfa'r Festri. Be' ydy' dy atgofion?

AHJ: Mae gen i lu o atgofion am y cyfnod ond a deud y gwir doeddwn i'n cofio dim am y poster nes ei weld yn y Gair Bach. Symudodd Angharad a mi i bentref Ffynnon Taf ym Mehefin 1978 a dechrau

mynychu Bethlehem yn fuan wedyn. (Mae'r diolch i Rhian Huws am ein denu, ond stori arall ydy' honno). D'oeddwn i ddim wedi clywed am Rhys Tudur cyn symud i'r ardal, er fy mod yn 'nabod Elin ei wraig ers pan oeddwn yn fachgen ifanc yng Nghaernarfon. Yn syth bin deallais mai un ymarferol oedd Rhys, ac un gweithgar, ymroddedig dros ben. Buan iawn daethom yn ffrindiau agos ac mi gymerodd bob mantais o'r ffaith mai cyw pensaer oeddwn i! Ond i fod o ddifri, dysgais lawer ganddo ac mi roedd ei adnabod, a'i gael fel gweinidog am gyfnod, yn fraint.


IR: Felly, fel un ymarferol, ai gweledigaeth y gweinidog oedd adnewyddu'r Festri ar y pryd?

AHJ: Ia. Ond roedd ei weledigaeth yn mynd ymhellach na hynny. D'oedd yna ddim cegin ar gael ym Methlehem, na thoiled oedd yn gweithio. Felly Cam 1 oedd y Festri am fod, a Cham 2 fyddai chwalu'r hen fynedfa a'r thoiled allanol, ac adeiladu Cegin a thoiled newydd yn ei lle.



Tu mewn i'r festri cyn newidiadau 1980

(parhad ar y dudalen nesaf)



Tu allan i'r festri cyn newidiadau 1980

IR: Ond beth am y costau? Cynulleidfa gymharol fechan oedd ym Methlehem ar y pryd, felly o ble daeth yr arian?

AHJ: Fel Annibynnwr i fêr ei esgyrn, roedd rhaid gan Rhys gael yr holl eglwys i gefnogi'r fenter, ac yn dilyn cwrdd eglwys ble cafwyd trafodaeth frwd ynglŷn â'r opsiynau posib, cafwyd cefnogaeth lwyr y gynulleidfa. Felly, ymlaen â'r gwaith o godi arian a threfnu'r gwaith. Ac mi fu'r aelodau yn hynod weithgar yn cynnal ffair sborion, swper Nadolig (yn neuadd y pentref oherwydd cyflwr ein festri), cwis, Hawl i Holi, colli pwysau (aflwyddiannus yn amlwg), cyngherddau, a gwerthu cardiau Nadolig 'bespoke' Bethlehem. Ac erbyn Haf 1980 mi roedd rhan helaeth o'r arian wedi'i godi a Cham 1 ar y gweill.

IR: Poster ar gyfer un o'r ffeiriau oedd poster y clown felly?

AHJ: Ia, mae'n debyg.

IR: A'r cwestiwn amlwg - pam clown?


AHJ: Mi fedrwn i ddeud mai dylanwad y llyfr *'The Gospel in Greasepaint: Creative Biblical Skits for Clowns, Mimes, and Other Fools for Christ'* wnaeth fy sbarduno, ond er mor ddiddorol ydy'r gyfrol, celwydd fasa hynny. Neu, mi fedrwn ddweud fy mod wedi dewis clown achos mai pwrpas gwreiddiol y cymeriad hwnnw ydy' adlewyrchu'n ôl i ni pwy ydan ni go iawn. Ond fasa hynny'n bell o'r gwir hefyd.

IR: Beth oedd y gwir reswm felly?

AHJ: Wel, os cofia i yn iawn, ceisio tynnu sylw'r 'dyn ar y stryd' i gefnogi ein hymgyrch oedd y nod. Cafodd y posteri eu harddangos yn y post yng Ngwaelod-y garth a sawl siop yn Ffynnon Taf, a llwyddwyd i gael cefnogaeth gref i'r ffair o bob rhan o'r gymuned leol. Dim rheswm dyfnach na hynny am y wyneb clown! Rhyfedd meddwl fod y poster wedi goroesi 40 mlynedd, a'r clown heb heneiddio dim!

IR: Diolch am ein goleuo Alwyn. Neu a ddylwn i dy alw'n '**poster boy Bethlehem**' o hyn allan?

AHJ: Un 1980 falle!



Cerdyn o waith Alwyn fu'n rhan o'r ymgyrch.

O Enau Plant Bychain!

- ❖ Deg Gorchymyn – y cynta oedd pan ddwedodd Efa wrth Adda am ddwyn fala
- ❖ Gwragedd yr Apostolion oedd yr Epistols
- ❖ Gwraig Noa oedd "Joan of Arc"
- ❖ Oedd gan Solomon dri chant o wragedd a saith cant o porciwpeins
- ❖ Y llyfr cynta yn y Beibl yw Guinness
- ❖ Ffrind Iesu oedd Ioan Freuddwydiwr



Papyrus 75, y darn cynharaf o Efengyl 175 O.C.- 225 O.C.

Εὐαγγέλιον κατὰ Λουκᾶν, yr Efengyl yn ôl Luc, yw'r trydydd o'r Efengylau Synoptaidd, llyfr hwyaf y Testament Newydd. Fel gyda Marc a Mathew, doedd Luc ddim yn llygad-dyst i'r hyn mae'n ysgrifennu amdano. Fel gyda Mathew, mae wedi gwneud defnydd o'r hyn yr oedd Marc wedi'i ysgrifennu, ond gyda llawer o ychwanegiadau. Nid Iddew oedd yr awdur (yn wahanol i awduron eraill y Testament Newydd), ond roedd yn gyfarwydd â'r Hen Destament ac arferion y synagog. "Roedd ganddo fwy o ddi-ddordeb mewn pobol na syniadau" (G.B.Caird). Ysgrifennwyd llyfrau eraill y Testament Newydd ar gyfer y cymunedau Cristnogol gwahanol, ond llyfr i rywun o'r enw Theoffilus (efallai un o bwysigion y llywodraeth Rufeinig) sydd yma. Ysgrifennwyd llyfr yr Actau ar gyfer Theoffilus hefyd, gan yr un awdur, sef y meddyg Luc, yn ôl traddodiad yn dyddio o'r ail ganrif, y cyfeirir ato yn Colosiaid 4.14; 2Timotheus 4.11; Philemon 24.

Ar wahân i'r hyn sy'n wreiddiol i Luc, a'r hyn mae wedi'i gymryd o fersiwn Marc, mae Luc wedi defnyddio ffynhonnell arall hefyd i ddweud ei stori. Mae ysgolheigion yn galw'r ffynhonnell yna'n "Q", talfyriad o'r Almaeneg *Quelle* = ffynhonnell. Fe wnaeth Mathew ddefnyddio "Q" hefyd. Mae "Q" yn gyfrifol am ryw 200 o adnodau.

Y dyfalu yw bod "Q" wedi'i ysgrifennu yn Antioch tua 50 O.C. Cyn i unrhyw beth gael ei ysgrifennu am Iesu, ar lafar yr adroddwyd y stori. Bernir bod Efengyl Luc wedi'i ysgrifennu 80-110 O.C.

Rhai o nodweddion arbennig Luc:

- mae Iesu (Mab Duw) yn rhan o gynllun dwyfol i achub y byd;
- roedd y cynllun wedi'i ddatgelu yn yr Hen Destament;
- mae'r hen broffwydoliaethau'n cael eu gwireddu yn Iesu ("Yr oedd hwn wedi ei draddodi trwy fwriad penodedig a rhagwybodaeth Duw, ac fe groeshoeliasoch chwi ef drwy law estroniaid, a'i ladd." Actau 2.23)
- pwyslais Iesu ar dosturi a chyfiawnder (sylw i'r tlodion, pobl yr ymylon, gwragedd, y gorthrymedig.)
 "Somehow of all the gospel writers one would have liked to meet Luke best of all, for this Gentile doctor who had the tremendous vision of the infinite sweep of the love of God must have been a lovely soul."
 (William Barclay)

https://en.wikipedia.org/wiki/Gospel_of_Luke

Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf?

Does dim rhaid iddo fod yn faith. Mae tua 500 gair a chwpwl o luniau'n llanw tudalen. Ond mae croeso i chi ddyblu hynny, os dymunwch!

*Anfonwch erbyn Gorffennaf 16 fan bellaf at:
 tycnau@aol.com*